ATODLEN 11

Darpariaethau Diogelu

# RHAN 2

## Diogelu Network Rail Infrastructure Limited

**20.** Rhaid i'r ymgymerwr ad-dalu'r holl ffioedd, costau, taliadau a threuliau yr eir iddynt gan Network Rail i Network Rail—

(a) wrth adeiladu unrhyw ran o waith penodedig ar ran yr ymgymerwr fel y'i darperir gan baragraff 15(3) neu wrth adeiladu unrhyw weithfeydd diogelu o dan baragraff 15(4) gan gynnwys, mewn cysylltiad ag unrhyw weithfeydd diogelu parhaol, swm wedi ei gyfalafu sy'n cynrychioli cost cynnal a chadw ac adnewyddu'r gweithfeydd hynny;

(b) mewn cysylltiad â chymeradwyaeth y peiriannydd o blaniau a gyflwynir gan yr ymgymerwr a goruchwyliaeth y peiriannydd dros adeiladu gwaith penodedig;

(c) mewn cysylltiad â defnyddio neu gaffael gwasanaethau unrhyw arolygwyr, signalwyr, gwylwyr a phersonau eraill y mae'n rhesymol angenrheidiol eu penodi i archwilio, signalu, gwylio a goleuo eiddo rheilffordd ac i atal, i'r graddau y bo'n rhesymol angenrheidiol, ymyriad, rhwystr, perygl neu ddamwain sy'n codi o ganlyniad i adeiladu gwaith penodedig neu fethiant gwaith penodedig;

(d) mewn cysylltiad ag unrhyw waith traffig arbennig o ganlyniad i unrhyw gyfyngiadau cyflymder y gall, ym marn y peiriannydd, fod yn ofynnol eu gosod oherwydd neu o ganlyniad i adeiladu gwaith penodedig neu fethiant gwaith penodedig neu drwy amnewid neu ddargyfeirio gwasanaethau a all fod yn rhesymol angenrheidiol am yr un rheswm; ac

(e) mewn cysylltiad ag unrhyw oleuadau dros dro ychwanegol ar eiddo rheilffordd yng nghyffiniau'r gweithfeydd penodedig, sef goleuadau sy'n rhesymol angenrheidiol oherwydd neu o ganlyniad i adeiladu gwaith penodedig neu fethiant gwaith penodedig.